



**Creoso i
Coedwig Maesyfed**

Tras hynafol

Roedd Coedwig Maesyfed unwaith yn dir hela brenhinol. Y dyddiau hynny, nid coedwig ydoedd yn yr ystyr fodern o fod yn ardal goediog drwchus, ond yn yr ystyr ganoloesol o fod yn 'fforest' sef ardal heb fod yn gaedig a ddefnyddiwyd i hela ceirw.

Mae'r ardal sy'n dal i gael ei galw'n Goedwig Maesyfed yn dir ffermio mynydd gyda gweundir helaeth, dyffrynnoedd culion a serth a bryniau'n codi i'r pwynt uchaf yn Sir Faesyfed, sef Black Mixen ar 650 metr (2150 troedfedd).

Coedwig gyda golygfa

Mae mannau agored yn y goedwig yn cynnig golygfeydd gwych o Gadair Idris ac Eryri i'r gogledd-orllewin, y Long Mynd i'r gogledd-ddwyrain, draw i Fryniau Malvern yn y dwyrain a Bannau Brycheiniog i'r de. Yn ôl rhai, os ydych chi'n teithio tua'r dwyrain o bwynt uchaf y goedwig, sef Bryn y Domen Ddu, mai'r pwynt uchaf nesaf y dewch chi ato yw mynyddoedd yr Ural yn Rwsia!

**Welcome to
Radnor Forest**


An ancient pedigree

Radnor Forest was once a royal hunting ground but it wasn't an area covered in trees, which is our understanding of the word 'forest'. To the Norman kings it was an unenclosed piece of land, legally set aside for them to hunt deer.

Today the area still called Radnor Forest is a land of hill farming and great moorlands, steep narrow valleys and hills, rising up to the highest point in Radnorshire, Black Mixen at 2,150 feet (650 metres).

Forest with a view

Open areas within the forest offer stunning views of Cadair Idris and Snowdonia to the north-west, the Long Mynd to the north-east, across to the Malvern Hills to the east and the Brecon Beacons to the south. It has been said that if you travel due east from the highest point of the forest, Black Mixen Hill, the next highest point you come to is the Russian Urals!



Coed Nash

Coed y Ddwy Genedl

Creoso i'r goed hanner yng Nghymru a hanner yn Lloegr, "ar y ffin" o ddifri. Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y nifer o fryngaerau y gallwch eu gweld o'r olygfan ysblennydd hanner ffordd o amgylch Llwybr Nash. Mae'r llwybr yn le braf i fynd am dro trwy'r flwyddyn, ond cadwch lygad allan am ffynghau llwiogar yn yr hydref.

Llwybr Nash

Dilynwch yr arwyddion coch a dringo'n raddol o'r maes parcio, trwy'r coed, i ffordd y goedwig. Unwaith yr ydych ar y ffordd edrychwch yn ôl ar y golygfeydd gwych dros Lanandras a dros y bryniau i'r Gororau yn y pellter.

Mwynhewch y golygfeydd lawr i'r de sy'n edrych dros ddyffryn Maesyfed a Henffordd yn y pellter. O'ch blaen mae Llethr Burfa, hen gaer o'r Oes Haearn, un o lawer ar y rhan hon o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Allan tua'r de-orllewin gallwch weld Coedwig Maesyfed yn y pellter ynghyd â siâp nodweddiadol Bryn Whimble a thref Maesyfed lawr yn y dyffryn.

Ailymunwch â ffordd y goedwig a gwelwch Cold Harbour House ar y chwith, un o'r tyddynnod lle'r oedd pobl leol yn byw, ond sydd bellach wedi'i foderneiddio. Yn agos at ddiwedd y daith fe welwch goedlan fawr o goed cyll, cynefin delfrydol ar gyfer y pathew, sydd yn cael ei amddiffyn. Mae'n bellter byr yn ôl i'r maes parcio.

Nash Wood

The Two Nations Wood

Welcome to the wood which lies half in Wales and half in England, true 'border country'. This is reflected in the number of hillforts you can see from the spectacular viewpoint halfway round the Nash Trail. This trail makes a lovely walk no matter what time of year, but keep an eye out for colourful fungi in autumn.

Nash Trail

Follow the red waymarkers and climb steadily from the car park through the woodland to the forest road. Once on the forest road take in the wonderful views back over to Presteigne and beyond to the hills of the Welsh Marches in the distance.

Enjoy great views south overlooking the Radnor valley and Herefordshire in the distance. In front of you is Burfa Bank, an old Iron Age hill fort, one of many along this part of the English/Welsh border. Out to the south-west you will see Radnor Forest in the distance with the distinctive shape of Whimble Hill and the town of New Radnor in the valley below.

Rejoin the forest road and see Cold Harbour House on your left, one of the old smallholdings once lived in by local workers but since modernised. Near the end of the walk you will see a large coppice of hazel, ideal habitat for the protected dormouse. From here it is a short walk back to the car park.

